

Artist : Swci

Enw : They came from the north/Shake it (Super Single)

Fformat : CD promo ag i'w lawrlwytho o'r holl siopau digidol arlein o safon

Label : TARW DU, Cymru

Dyddiad rhyddhau swyddogol : Gorffennaf 26 2010

TARW DU arywe : tarwdu.com + facebook/myspace/twitter/youtube + Myspace.com/swciboscawen

Swci

Dyma sengl newydd sbon Swci, dau drac sgleiniog popwych gan y gantores gyfoes o Gaerfyrddin. Sgwennwyd a chynhyrwyd 'They came from the north' a 'Shake it' gan Gruff Meredith (MC Mabon), Swci a'r tywysog digidol David Wrench (Euros Childs, Julian Cope, Race Horses, Bat for Lashes)

Mae dau elfen gyffrous a newydd i'r sengl yma - dyma gynhyrchiad a chynnyrch cyntaf label newydd Gruff Meredith TARW DU a hefyd dyma'r tro cyntaf i Swci ganu yn Saesneg. Mae llais Mared yn unigryw, fel mai wedi ei brofi dros y blynyddoedd; gwelwyd hi yn ddiweddar yn perfformio ar lwyfan Can i Gymru 2010 ble enillodd wobr can mwyaf unigryw y gystadleuaeth gyda'r gan 'Gynnai ofn'. Mae'r cd 'dal yn dy law' yma hefyd yn cynnwys fersiynau offerynnol o'r ddwy gan sydd yn sefyll ar eu traed eu hunain fel traciau pwerus a llawn naws.

Mae TARW DU hefyd yn hynod falch o ddatgan fod Super Single newydd Swci yn cael ei ryddhau mewn cysylltiad gyda Brecon Five Vodka o ddistyllfa enwog Penderyn. Bydd y sengl ar gael i'w phrynu ar lein o Orffennaf 26 ymlaen o gannoedd o'r prif siopau digidol rhyngwladol fel iTunes, 7digital, Amazon, Tesco a Virgin mobile.

Cefndir

Mae Mared Lenny wedi bod yn perfformio yn fyw a rhyddhau cerddoriaeth ers yn ddeuddeg oed, yn gynta gyda'r grŵp pync Doli a rwan gyda Swci. Rhyddhawyd albym gynta Swci 'Couture C'Ching' yn 2007 ac mai wedi bod yn teithio yn gyson a pherfformio i filoedd ledled Cymru ers hynny, yn hedleinio gigs, 'neud' yr Eisteddfod, a chyfrannu a chyd weithio gyda chroesdoriad amrywiol o artistiaid Cymreig. Mai hefyd wedi chwarae yn gyson yn Efrog Newydd a pherfformio gyda Rufus Wainwright yng Nghanolfan y Mileniwm pan chwaraeodd yno fel rhan o'i daith rhyngwladol ddiweddar. Enillodd Mared artist benywaidd y flwyddyn yn ngwobrau roc a phop Radio Cymru 2007.

Disgrifiodd John Cale yr albym fel 'ciwt' a ychwanegodd Anton o Brian Jonestown Massacre yn ddi flewyn ar dafod ei fod yn 'f***** awesome'

Trifia -Martin Carr o'r Boo Radleys oedd yn chwarae bas i Swci yn nyddiau cynnar y band..